

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-
NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 29AIN O EBRILL 2019 YN YSGOL
BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Stan Williams, Arwel Davies, Jill Evans, Bari Evans, Geraint Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Hywel Jones, Falmai Evans a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Fawrth 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad Cydlynnydd Gwasanaeth Stryd (Ardal Dinbych) Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau gan nad oes yna adroddiad o ysbwriel ym Mhrion nid mae angen "Biniau Ysbwriel" ym Mhrion. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc adroddi yn ôl yn cadarnhau fod yna ysbwriel ym Mhrion.

B. Nid mae'r Cydlynnydd Gwasanaeth Stryd (Ardal Dinbych) Cyngor Sir Ddinbych yn gallu gweld y lleoliad groesffordd Nant-y-Ci ar y ffordd o Saron i Nantglyn. Mae'r Clerc wedi rhoi manylion lleoliad y groesffordd i'r Swyddog.

C. Derbyniwyd gwybodaeth fod yna twll yn y ffordd unwaith eto wrth yr Hen Vicarage yn Llanrhaeadr.

D. Mae Mr Glyn Jones wedi trwsio'r hysbysfwrdd y Cyngor ym Mhrion.

E. Derbyniwyd newyddion trist o golled y diweddar Tudor Jones, Gwefeistr y Cyngor. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gwneud ymholiadau Gwefeistr eraill ynghlŷn â dderbyn cymorth i'r Wefan y Cyngor.

F. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Gymdeithas Maes-y-Plwm am gyfraniad ariannol y Cyngor.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc £14,126.86.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r 2019/2020 precept y Cyngor £4,186.00.

C. Cytunwyd i'r taliadau canlynol:-

1. BHIB Ltd am yswiriant blynyddol y Cyngor £488.98.

2. Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd am dri aelod a mynychu'r cwys hyfforddi Un Llais Cymru ar 8fed o Ebrill 2018 £120.00.

3. Mr Glyn Jones am drwsio'r bwrdd hysbysu ym Mhrion £48.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnyddio carafán bresennol fel llety preswyl warden gydol y flwyddyn yn Gaer Mynydd Caravan Park, Saron.

B. Cais cynllunio ol-weithredol am newid defnydd rhan o adeilad amaethyddol a llawr caled cysylltiedig i Weithdy Mecanyddol ar gyfer Busnes Chwaraeon Modur/Car Clasurol Arbenigol yn Hen Sied, Llanrhaeadr.

C. Cais cynllunio tystysgrif datblygiad cyfreithion bresennol ar gyfer newid defnydd rhan o adeilad i'r annedd sengl yn Apartment Hen Sied, Llanrhaeadr.

Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r ddau gais ar y sail:-

1: Mae'r adeilad yn adeilad amaethyddol ac nid yn adeilad busnes sydd ddim yn cydffurfio gyda rheolau adeiladu.

2. Nid mae'r safle yn y Cynllun Ddatblygu Lleol.

3. Ni does yna profiad o'r angen lleol i'r datblygiad.

D. Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Jill Evans fod Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn cais cynllunio am "Newid defnydd tir drwy osod caravan statig i ddarparu llety preswyl mewn cysylltiad â hwsmonaeth anifeilaidd yn The Paddock, Saron. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gwneud ymholiadau gyda'r Adran Cynllunio i ofyn am gopi o'r cais cynllunio am sylwadau'r Cyngor Cymuned.

7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd llythyr a gwybodaeth gan Mr Howard Huws, Ysgrifennydd Cymdeithas Ffynhonnau Cymru, ynglŷn ar bryderon Prosiect Ffynnon Dyfnog yn Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc yrru'r wybodaeth ymlaen i'r Gymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch i ymateb i'r pryderon.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd y Cadeirydd gopi o'r adroddiad Cyngor Sir Ddinbych oddi wrth y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch o'r cyflymdra traffic ar y A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr yn yr wythnos yn diweddu 21ain o Fawrth 2019 yn dilyn gofynion Mrs Cerys Davies am groesfan i gerddwyr wrth Bentre' Motors. Cytunodd y Cadeirydd i ymateb i'r Cyngor Sir Ddinbych yn uniongyrchol ar ôl asesu'r wybodaeth cyflymdra'r traffic.

9. MATERION BRYN O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion ffyrdd y gymuned sydd ddim wedi eu datrys a chodwyd yn gyfarfodydd blaenorol y Cyngor.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at y Cynghorydd Falmai Evans i'w atgoffa nid mae wedi mynychu cyfarfod y Cyngor ers rhai misoedd bellach.

C. Ar ddiwedd y cyfarfod ymddiwyddodd Mrs Jill Evans fel aelod o'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch. Diolchwyd yr aelodau i Mrs Evans am ei holl wasanaeth fel aelod y Cyngor ers llawer blynedd bellach. Mi fydd y Clerc yn hysbysu'r sedd wag i'r Swyddog Etholiadau Cyngor Sir Ddinbych.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 21ain o Fai 2019 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.00 o'r gloch.